

Cymorth i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd

Cyflwyniad

Bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn cael problemau ar ryw adeg. Gall yr anawsterau yma fod yn llethol weithiau, a bydd angen pob cymorth posibl ar rieni.

Mae ein timau Plant a Theuluoedd yn gweithio gydag asiantaethau i roi cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Weithiau, nid yw'n bosibl i blentyn neu berson ifanc fyw gyda'u teulu ac yn achlysurol bydd gofyn i'r Llys wneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylai'r awdurdod lleol ofalu am blentyn.

Plant sydd Angen Gofal a Chefnogaeth

Rydym yn helpu teuluoedd â phlant sydd wedi eu hasesu o fod 'angen gofal a chefnogaeth' – plant a phobl ifanc hyd at 18 oed a allai weld eu hiechyd a lles yn dioddef heb gefnogaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Maent yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc anabl
- Plant a phobl ifanc sydd yng ngofal y cyngor a'r rheiny sy'n gadael gofal (hyd at 21, neu 25 os mewn addysg amser llawn)
- Plant a phobl ifanc sydd angen eu diogelu.
- Plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches.
- Plant sy'n ofalwyr ifanc

Os ydych chi'n credu bod angen help gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar eich plentyn neu'ch teulu, cysylltwch â ni. Fe wnawn ni weld pa gymorth sydd angen arnoch chi a'ch cysylltu â'r bobl iawn. Gall cael cyngor a chefnogaeth ar adeg gynnar atal problemau rhag mynd yn waeth.

Os ydych chi'n credu bod angen help gan y Gwasanaethau Plant ar eich plentyn neu'ch teulu, cysylltwch â ni. Fe wnawn ni weld pa gymorth sydd angen arnoch chi a'ch cysylltu â'r bobl iawn. Gall cael cyngor a chefnogaeth ar adeg gynnar atal problemau rhag mynd yn waeth.

Penderfynu beth yw eich anghenion

Cyn y gallwn ni gynnig cefnogaeth i chi, efallai bydd angen i ni wybod mwy am anghenion eich teulu - rydym yn galw hyn yn asesiad. Os byddwn yn ymgymryd ag asesiad, gallwn benderfynu, gyda'n gilydd, pan gymorth gallwn gynnig i chi.

Pa wasanaethau allai fod ar gael:

- **Cyngor a chyfarwyddyd**
Byddwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor cyffredinol i blant a'u teuluoedd. Efallai bydd hyn yn cynnwys rhoi i chi fanylion asiantaethau neu bobl broffesiynol eraill sy'n cynnig cymorth i blant a'u teuluoedd.
- **Cefnogaeth a chymorth**
Ar ôl asesiad, bydd cynllun yn cael ei ddatblygu gyda chi ac unrhyw un sy'n bwysig i chi a'ch plentyn, a fydd yn edrych am y canlyniadau gorau ar gyfer lles eich teulu.
- **Diogelu plant**
Mae gennym ddyletswydd i warchod a diogelu plant ac mae'n rhai i ni wneud ymholiadau pan fod yna unrhyw gyhuddiad o gamdriniaeth. Gall fod nifer o ffurfiau ar gamdriniaeth, am ragor o wybodaeth ewch at Fwrdd Diogelu Gwent

Mae gennym ddyletswydd i warchod a diogelu plant ac mae'n rhai i ni wneud ymholiadau pan fod yna unrhyw gyhuddiad

o gamdriniaeth. Gall fod nifer o ffurfiau ar gamdriniaeth, gan gynnwys esgeuluso, niwed corfforol, rhywiol neu emosiynol a methiant i atal niwed. Mae camdriniaeth ddomestig hefyd yn cael effaith niweidiol ar les plentyn.

Os ydych chi'n pryderu am ddiogelwch neu les plentyn, cysylltwch â ni.

Plant a Phobl Ifanc Anabl

Tybir fod angen gofal a chefnogaeth ar blentyn anabl yn ogystal â, neu yn lle'r gofal a chefnogaeth a roddir gan deulu'r plentyn.

Bydd y Tîm Plant Anabl yn cynnig asesiad gofal cymdeithasol arbenigol ble mae yna anghenion cymhleth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn *nhaflen wybodaeth Cymhwyster Plant ag Anabledd am Gefnogaeth*

Plant Mewn Gofal

Rydym am gadw plant a phobl ifanc gyda'u teuluoedd ond weithiau nid yw hyn yn bosibl. Os na all plentyn neu berson ifanc aros gyda'u teulu, byddwn yn ceisio dod i gytundeb â'r rhieni ynglŷn â sut bydd gofal amdanynt.

Os na allwn ni ddod i gytundeb gyda'r rhieni, efallai bydd rhaid i ni ddarparu gofal yn groes i ddymuniadau'r rhieni - bydd angen i'r Llys benderfynu hyn wedyn.

Y sawl sy'n gadael gofal;

Mae Gwasanaethau Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS) yn dîm aml-asiantaeth sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, yr adran dai a staff cynorthwyol. Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc 16-25 oed.

Mae gan y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r tîm amrywiaeth o anghenion am gefnogaeth. Efallai eu bod mewn gofal maeth neu gydag

aelodau eu teuluoedd neu wedi 'Gadael Gofal'. Hefyd, rydym yn cynnig cymorth a chyngor i bobl ifanc digartref 16-18 oed. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor a chymorth ar amrywiaeth eang o faterion i helpu pobl ifanc, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal, i symud at fywyd annibynnol. Mae pecynnau gofal unigol yn cael eu cytuno gyda'r bobl ifanc eu hunain

Maethu

Rydym yn recriwtio ac yn asesu pobl sydd am fod yn ofalwyr maeth i Gyngor Torfaen. Rydym yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant parhaus i'n gofalwyr maeth i gyd.

Am ragor o wybodaeth, gwelwch ein taflen wybodaeth *Diddordeb mewn bod yn ofalwr maeth*.

Maethu Preifat

Weithiau mae plentyn neu berson ifanc yn byw gyda rhywun nad yw'n berthynas agos - maethu preifat yw hyn. Os yw'r trefniant yma'n parhau am yn hirach na 28 diwrnod, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ni.

Mae gennym ddyletswydd i ymweld â chi i gynnig cefnogaeth a hyrwyddo lles y plentyn/person ifanc.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein taflen wybodaeth *Maethu Preifat: Ydych chi'n gofalu am blentyn rhywun arall neu Oes yna rywun sy'n gofalu am eich plentyn?*

Mabwysiadu:

Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys ardal Gwent. Mae'r tîm yn ymdrin ag ymholiadau am gofnodion geni, ceisiadau i fabwysiadu ac i lys-rieni fabwysiadu.

Mae hefyd yn cynnig cefnogaeth ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys cyngor a chwnsela i blant, pobl ifanc ac oedolion wedi eu mabwysiadu, eu rhieni genedigol,

perthnasau, cyn-warcheidwaid, a rhieni mabwysiadol, nid dim ond ar adeg mabwysiadu ond ar unrhyw adeg yn eu bywydau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://southeastwalesadoption.co.uk/>

Gofalwyr Ifanc

Gofalwr ifanc yw rhywun sydd o dan 18 oed ac sy'n gwneud tasgau gofal a chartref oherwydd bod ganddyn nhw riant, brawd, chwaer perthynas arall neu gyfaill sydd ag anabledd corfforol, anabledd dysgu, problem iechyd meddwl, salwch tymor hir neu derfynol neu broblem camddefnydd cyffuriau neu alcohol.

- Gweithio gyda phobl broffesiynol ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n effeithio ar y gofalwr ifanc
- Rhoi cefnogaeth i leihau pryderon, straen ac unigrwydd y mae gofalwyr ifanc yn aml yn eu dioddef
- Anogaeth i ofalu am eu hunain yn gorfforol a meddyliol.
- Cyfle i fwynhau gweithgareddau gyda gofalwyr eraill a gwneud ffrindiau newydd
- Saib rhag tasgau a chyfrifoldebau gofal
- Adolygiad rheolaidd o anghenion gofalwyr ifanc
- Gweithiwr penodol sy'n cynnig cefnogaeth ac sy'n ateb cwestiynau gofalwyr ifanc

Plant sy'n ceisio lloches a phlant a allai fod wedi ei masnachu

Byddwn yn asesu sefyllfa unrhyw blentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed a allai fod wedi eu masnachu neu sy'n gofyn am loches. Bydd gwasanaethau priodol yn cael eu rhoi wedyn, a allai gynnwys gofal maeth.

A fydd fy marn yn cael ei hystyried?

Rydym yn annog defnyddwyr ein gwasanaeth a gofalwyr i gymryd rhan wrth i

ni gynllunio gwasanaethau'r dyfodol. Hoffem gael eich barn am ein gwasanaethau a chlywed am unrhyw syniadau am eu gwella.

Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help arnoch chi, cysylltwch â ni.

Ffôn: 01495 762200

E-bost:

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Ein cyfeiriad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Argyfwng

Mae ein Gwasanaethau Brys y Tu Allan i Oriau yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa arferol ac yn delio â sefyllfaoedd brys nad ydynt yn gallu aros tan y diwrnod gwaith nesaf.

Ffôn: 0800 328 4432

Minicom: 0800 587 9963